NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Romiplostim ar gyfer pwrpwra thrombosytopenig imiwnedd cronig (idiopathig)

26 Hydref 2018

Mae Romiplostim (Nplate) ar gael gan y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer pwrpwra thrombosytopenig imiwnedd cronig (idiopathig) mewn oedolion o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- os nad yw eu cyflwr wedi gwella er eu bod wedi rhoi cynnig ar driniaethau eraill, neu
- os oes ganddynt afiechyd difrifol a risg uchel y byddant yn gwaedu sy'n gofyn am driniaethau brys yn rheolaidd.

Os nad ydych yn gymwys i gael romiplostim, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall y sefydliad hwn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymdeithas Cymorth Thrombosytopenia Imiwnedd, 01234 376559 559

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-84936-565-9

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights